

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy



### Pam?

Mae adnoddau naturiol yn hollbwysig i'r aer rydym yn ei anadlu, y dw'r rydym yn ei yfed a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Maent yn gwella ansawdd y llefydd rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw ac yn darparu'r tirweddau a'r fioamrywiaeth sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig. Mae adnoddau naturiol sy'n iach ac yn ffynnu hefyd yn iachach i bobl a'u cymunedau ac i'r economi. Ond mae mwy o bwysau nag erioed ar ein hadnoddau naturiol. Os na wnawn ni weithredu nawr i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd yna ganlyniadau difrifol a fydd yn effeithio ar bob un ohonom. Mae angen i ni newid y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn parhau i elwa ar ein hadnoddau naturiol nawr ac yn y dyfodol.

### Beth?

Mae Ddeddf yr Amgylchedd yn ein helpu ni i ymateb i'r her hon trwy gyflwyno'r dull **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** fel dull newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol, na'r effeithiau arnynt, yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu o brofiadau ein partneriaid rhyngwladol, ac rydym yn defnyddio arfer gorau rhyngwladol, er enghraifft, trwy roi dull ecosystem Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ar waith i helpu Cymru i arwain y ffordd mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy.

Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y nodau sydd wedi'u hamlinellu yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Sut?

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno saith egwyddor syml ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n sail i'r ffordd rydym i gyd yn gweithio. Mae'r saith egwyddor fel a ganlyn:

**Addasadwy** – mae angen i ni gynllunio, monitro, adolygu a newid ein gwaith wrth i ni wella ein dealltwriaeth trwy ein tystiolaeth a'n profiadau gwell.

**Graddfa** – bydd angen i benderfyniadau a champau gael eu cymryd ar y lefel briodol, boed hynny ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. Bydd angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i nodi'r raddfa fwyaf priodol ar gyfer darparu'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd a nodir yn ein tystiolaeth.

**Gweithio gyda'n gilydd** – mae gan bawb gyfran yn ein hadnoddau naturiol ac, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, mae gan bawb gyfraniad i'w wneud trwy ymgysylltu â phrosiectau, darparu tystiolaeth neu gydweithio neu gydweithredu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**Ymgysylltu â'r cyhoedd** – sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud ar sut y dylai adnoddau naturiol gael eu rheoli yn ystod pob cam o'r broses wneud penderfyniadau.

**Tystiolaeth** – mae angen sail dystiolaeth ehangach a gwell er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol, sut y maent yn gweithredu a'r manteision y maent yn eu darparu. Bydd gwell tystiolaeth yn ein helpu ni i gyd i ddeall yn well y camau y gallwn ni eu cymryd i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol yn fwy gynaliadwy. Bydd angen ystod lawn o dystiolaeth, nid tystiolaeth amgylcheddol yn unig ond hefyd tystiolaeth ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd gan arbenigwyr, rhanddeiliaid a chymunedau lleol.

**Deall yr holl fanteision a gawn ni yn sgil ein hadnoddau naturiol** – mae angen i ni gyd wella ein dealltwriaeth o werth ein hadnoddau naturiol a'r ffyrdd y maent yn ategu ei gilydd fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a lleihau'r effaith rydym yn ei chael ar yr amgylchedd o'n cwmpas.

**Hirdymor** – mae angen i ni ystyried effeithiau ein penderfyniadau a'n camau yn yr hirdymor, yn ogystal â'r byr dymor.

**Atal** – cymryd camau i atal niwed sylweddol yn cael ei wneud i'n hecosystemau.

**Cydnherthedd** – er mwyn gallu ymdopi â'r gofynion a'r pwysau cynyddol, mae angen i'n hecosystemau fod yn iach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyried cydnherthedd ein hecosystemau a'u gallu i ddarparu manteision hirdymor. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu addasu i'r effeithiau sy'n eu hwynebu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd a gofynion y dyfodol.

## Rhagor o wybodaeth

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd](http://www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd)

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

[NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk](mailto:NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk)